

Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr a Chymru Cymraeg i bawb eu darllen

e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Cyrol 3 Rhif 5

Yn rhad ac am ddim

Awst 2022

Taith Dinas Cross



Cychod ym Mhwllgwaelod

Ar Sadwrn braf o haf anelais at ogledd sir Benfro er mwyn ymuno â'r amheus arferol ar ein taith yn ardal Dinas Cross. Roedd y ffyrdd yn dawel ac roedd digon o amser. Cyrraedd Abergwaun a sylweddoli bod system unffordd newydd o fy mlaen, bron i mi dorri'r gyfraith! Allan o'r dref ac mewn ychydig o funudau roeddwn yn cadw fy llygaid allan am y troad i'r chwith am Bwllgwaelod a theimlo tipyn o gyffro am fy mod i'n torri cwys newydd, y lôn gul a hefyd y daith mewn ardal newydd i mi. Ac mi oedd y lôn yn gul ond, yn ffodus, dim ond cerddwyr oedd yn ei ddefnyddio ar y pryd. Cyrraedd y maes parcio a dyna ble oedd y criw i gyd a'r holl geir efo'u drysau cefn ar agor! Roedd deunaw wedi troi fyny yn cynnwys dysgwraig lleol, efo ni am y tro cyntaf.

Ar ôl tipyn o wybodaeth gan Gareth Jones, ein harweinydd, ffwrdd â ni ac yn fuan iawn dyma ni wedi cyrraedd Cwm yr Eglwys. Beth sydd yn nodweddiadol am y pentref yw'r eglwys, neu y rhan o'r eglwys sydd ar ôl achos yn ystod storm fawr 26ain Hydref 1859 diflannodd rhan fwyaf o'r adeilad i'r môr. O achos y storm bu farw dros 600 o bobl dros Brydain i gyd, tua 450 ohonyn nhw ym Moelfre, Ynys Môn pan suddodd y Royal Charter a oedd bron wedi cyrraedd Lerpwl ar ei thaith yn ôl o Awstralia.



Cael Gwybodaeth

Roedd canon y llong yn ein gardd flaen yn y rheithordy yn Llanallgo. Fel plant roeddwn yn cael hwyl yn chwarae ar y canon, roedd yn enfawr ar y pryd wrth gwrs ond yn llawer llai erbyn hyn gan fy mod i wedi tyfu braidd ers y dyddiau yna. Mae pentref Cwm yr Eglwys wedi bod yn y newyddion yn ddiweddar o achos prisiau'r tai yna a'r ffaith bod pob un ond dau o'r tai yn dai haf. Beth sydd yn digwydd i'n gwlad ni, deudwch?




Eglwys y Cwm

Gadael y pentref wrth gerdded fyny'r lôn serth a chul, bysw'n i ddim yn mentro i'r pentref yn ystod gwyliau'r haf, i gyrraedd llwybr yr arfordir a mwynhau edrych i lawr ar y môr a'r creigiau cyn disgyn yn ofalus i fae bychan a thawel. Dilyn yr afon trwy goedlan hardd, yr

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

afon yn lledaenu i greu pwll a'r haul yn torri trwy'r dail i greu byd gwyrdd a glân. Os nad oedd hynny'n ddigon roedd natur wedi creu rhaeadr osgeiddig i ni edmygu hefyd.



Adlewyrchiad

Allan o'r coed a cherdded trwy gae i gyrraedd y brif ffordd, ei groesi a chasglu o gwmpas Gareth i gael cwestiwn. Nid yn bell o ble oeddem ni'n sefyll mae fferm o'r enw 'Pencnwc' a'r cwestiwn oedd - beth oedd y cysylltiad â'r fferm efo 'Little Big Horn'? Tebyg iawn rhywbeth i wneud â 'Custer's Last Stand'. Ac ia, roedd un o feibion y fferm wedi mynd draw i America, ymuno â'r fyddin, cael dyrchafiad i fod yn rhingyll a cholli ei fywyd ymysg lawer o filwyr eraill yn frwydr Little Big Horn.

Roedd yn amser cinio ond doedd ochr y brif ffordd ddim y lle gorau i eistedd a mwynhau ond roedd Gareth wedi gwneud cynlluniau i ni gael picnic efo golygfa. A dyna le o'n ni ar ochr Carn Fron yn edrych i lawr ar bentref Dinas Cross, Ynys Dinas a'r môr. Roedden ni'n cael ein sbwyllo!

Ymlaen wedyn i gyrraedd llwybr i fynd â ni i'r gwaelod, cerdded trwy jwngl o redyn, croesi'r brif ffordd unwaith eto a dilyn y lôn gul yn ôl at y ceir. Newid ein 'sgidiau wedyn ac eistedd tu allan i'r dafarn i fwynhau diod ysgafn oer cyn y daith adref, llawn boddhad ar ôl diwrnod da o gerdded, siarad a hwyl.

Diolch Gareth, gei di arwain eto!

Nant Gwrtheyrn gan Keith John



Rydw i wedi bod yn dysgu'r Gymraeg go iawn ers y cyfnod clo cyntaf a sawl gwaith pan o'n i'n dysgu ar-lein clywais am "Y Nant" felly, llynedd, es i ar-lein i ymchwilio i'w hanes gyda'r breuddwyd o fynd yno un diwrnod.

Nant Gwrtheyrn, neu Y Nant, yw'r Ysgol Gymraeg ger Llithfaen ar Benrhyn Llyn a buodd, yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn chwarel a phentref. Mae wedi ei leoli ar waelod dyffryn serth gyda'r ffordd i'r pentref yr un mor serth. Mae golygfeydd godidog dros y môr.

Cafodd y chwarel a'r pentref ei gau a gadawyd y trigolion yn y 1940's cynnar ond y ganrif hon cafodd ei ail adeiladu, dan arweiniad Dr Carl Clowes, yn Ganolfan Iaith Gymraeg a'i agor gan y prif weinidog Carwyn Jones ym mis Mawrth 2011

Es i ar-lein eto dros y Pasg i chwilio am gyrsiau Canolradd ond welais i gwrs yn y Nant i ddysgwyr ar level Uwch 1 gyda thair o lefydd ar gael. Ar ôl meddwl am y peth am ddwy funud cofrestrais a thalais am y cwrs cyn meddwl "Beth rydw i wedi gwneud, rydw i'n dysgu ar lefel canolradd 1 a newydd gofrestru am gwrs lefel uwch 1". Rhy hwyr nawr.

Ar y 5ed o fis Mehefin gyrrais, yn nerfus iawn, tua'r gogledd i fynychu'r cwrs. Ceisiais feddwl am esgus i droi'n ôl adref ond ni allwn o gwbl felly am chwech o'r gloch cyrhaeddais Y Nant. Roeddwn i wedi ymarfer, ar hyd fy nhaith, sut i ddweud pwy oeddwn i a gofyn am fy allwedd. Pan roddodd y wraig allwedd i fi ro'n i'n meddwl "Dechrau da". Yna siaradodd hi ataf i a do'n i ddim yn deall yr un gair, roedd hi'n siarad mor gyflym, a gydag acen ogleddol. Dywedais i
2 rywbeth fel "Diolch, a nos da" ac wedyn es i i

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

chwilio am fy mwthyn a ches i noson dda o gwsg.

Y bore wedyn wnes i gyfarfod â'r myfyrwyr eraill dros frechwast. Roedd dau gwrs yno, un ar gyfer dysgwyr rhugl a ni, uwch. Roedd pawb yn teimlo'r un peth ond yn fuan roedden ni i gyd yn siarad yn Gymraeg a ddaeth yr holl ramadeg rydw i wedi ei ddysgu i'r meddwl ac ar ôl hynny roedd popeth yn bleserus iawn am weddill yr wythnos.

Roedd ein grŵp ni yn dod o bob rhan o Brydain ac roedden ni i gyd ar yr un safon ac yn dod ymlaen yn dda gyda'n gilydd. Roedd pob diwrnod yn cynnwys rhywfaint o ramadeg, trafodaethau ar bynciau amrywiol, ysgrifennu yn gyffredinol i wella ein hyder. Roedden ni bob amser yn gweithio mewn grwpiau o 2-3, byth ar ein pennau ein hunain. Roedd y staff a'r grŵp rhugl yn gefnogol iawn ac yn fuan doedden ni ddim yn siarad unrhyw Saesneg, roedd yn brofiad bendigedig.

Yn anffodus fe hedfanodd yr amser a daeth yr wythnos i ben yn rhy gyflym ond roedden ni gyd wedi symud ymlaen gymaint. Roedden ni gyd yn drist i adael.

Diolch i'r Nant am brofiad bendigedig. Diolch i fy nghyd-fyfyrwyr am wneud hynny. Diolch i fy nhwtoriaid gartref am ddysgu'r iaith i fi.

Byddwn i'n dweud un peth wrthyh chi i gyd. Peidiwch ag ofni am fynd i Nant Gwrtheyrn. Ewch a mwynhewch!



Lle i ddysgu, i aros, i fwyta, i ddathlu, i gyfarfod, i grwydro

 **nant gwrtheyrn**

A place to learn, to stay, to eat, to celebrate, to wander

01758 750334
post@nantgwrtheyrn.org
www.nantgwrtheyrn.cymru

Help Spread the Word!

The Wennol depends on word of mouth to get more readers. So pass on a pdf to those people you know who are learning Welsh.

Thank you

Helpwch ymledu'r Gair!

Mae'r Wennol yn dibynnu ar bobl i basio'r pdf ymlaen er mwyn cael cyhoeddusrwydd. Felly anfonwch y pdf ymlaen i'ch ffrindiau sy'n dysgu

Diolch

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Tudalenau'r Dechreuwyr

Rywbeth hawdd i chi ddarllen ac, os dach chi eisiau, mae croeso i chi ysgrifennu rhywbeth hawdd i mi roi yn Y Wennol. Peidiwch â phoeni am wneud camgymeriad, dw i'n cywiro popeth! Ewch amdani - mae ysgrifennu yn hwyl!

Cyfle i ymarfer

gan Arianwen Evans

Helo! Arianwen dw i. Rwy'n astudio ym Mhrifysgol Warwick. Wythnos diwethaf, es i i Abertawe i aros gyda fy Nhaid. Dydd Mawrth, aethon ni i'r caffi yn Southgate. Daeth rhai o ffrindiau fy Nhaid i ymarfer siarad Cymraeg. Dw i'n ymarfer Cymraeg ar Duolingo, felly roedd yn dda ymarfer siarad Cymraeg. Dw i wrth fy modd yn mynd i Gymru achos mae llawer o fy nheulu yn byw yno. Ym mis Medi, dw i'n mynd i Brifysgol McMaster yng Nghanada i astudio.

Dw i'n falch iawn o ddweud mai fi yw Taid Arianwen! Rob

Utica, Efrog Newydd

gan Jen Rizio

Sut mae pawb? Jen dw i, dw i'n byw efo fy nghath Nicki yn Utica, Efrog Newydd yn yr Unol Daleithiau Mae'r tywydd yn gallu bod yn oer yn Utica. Mae hi'n bwrw eira am bump neu chwe mis mewn blwyddyn. Nawr mae'n Fis Mehefin a dwi'n hapus bod hi'n braf.

Dw i'n gerddor, ysgrifennwr ac yn grefftwr; nes i ddechrau dysgu Cymraeg ym Mis Medi 2020. Dwi wedi trio'r ap Duolingo, a gwylio'r fideo rhaglen "Now You're Talking Welsh" yn y linc Youtube. Roeddwn i'n gweithio mewn swyddfa prynu. Achos mae gen i salwch roedd rhaid i mi roi'r gorau i weithio ym 2013.

O hwn i hwn

gan Amanda Davies

Heddiw rhaid i ni godi'n gynnar achos mae fy nghneifiwr alpaca yn dod yma.

Yn gynnar y bore 'ma dwi'n mynd i'r maes gyda bwyd i fy hogiau, Twm, Dic ac Arri, er mwyn eu hudo i'w lloches.

Scott yw fy nghneifiwr. Mae e'n dod yma gyda'i nai.

Mae'n rhaid iddyn nhw glymu'r alpacas pan maen nhw'n cneifio.

Dw i ddim yn hoffi gwylio, ond maen nhw'n iawn, dydy o ddim yn eu brifo ac maen nhw'n hapus iawn pan mae popeth wedi gorffen achos eu bod nhw'n llawer mwy cyfforddus.

Dw i'n cadw'r cnu da i nyddu ond mae'r cnu gwael yn cael ei ddefnyddio fel tomwellt yn yr ardd ac mae'r adar yn ei ddefnyddio ar gyfer eu nythod hefyd.

Pechod!

gan Howard Jones Clements

Dyn ni i gyd yn gwybod bod pobl Gymraeg yn licio siarad am ddim byd gwell na'r tywydd neu eu hiechyd. Ar y nodyn yna dwedaf wrthyh chi am fy mhenwythnos.

Mae annwyd cas arna i ers nos Wener. Cysgais i ddim o gwbl trwy'r nos. Felly, ar ddydd Sadwrn doeddwn i ddim yn teimlo fel mynd allan. Gwnes i gysgu dipyn ar nos Sadwrn ond doeddwn i ddal ddim eisiau mynd allan ddydd Sul chwaith.

Cysgais i'n dda neithiwr ond mae dal annwyd arna i. Beth bynnag, af i i'r archfarchnad yn ddiweddarach i wneud y siopa am yr wythnos. Gobeithio bydda i'n well yfory ac wedyn dw i'n gallu dechrau cwyno am y tywydd eto!

A, pechod! - Brysia gwella Howard! - Rob

I need more contributions to these two pages. Nothing too complicated, just who you are, what you do - the simple things you learn at the beginning of your studies. Don't worry about mistakes, I'll help you to get things right. What have you got to lose?

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Siarad Cymraeg ym Mhorth

gan Rob Evans



Ar ol darllen erthygl Jeanette Muff 'Bore Coffi' ar dudalen 7 roedd rhaid i mi fynd yna i siarad â nhw. Roedd tua dwsin o ddysgwyr yna a doedd dim prinder o siarad. Ces i groeso mawr a chyfle i ddosbarthu ychydig o gopiau o'r Wennol, wrth gwrs. Mae'r hen llyfrgell yn llawn cymeriad ac mae llawer o bethau Cymraeg yn mynd ymlaen yna - Clwb Comedi, bandiau Cymraeg, nosweithiau cwis. Llyfrau Cymraeg ail law a chardiau ar werth hefyd.

Felly os dach chi'n byw yn yr ardal beth am fynd yna i fwynhau awyrgylch Cymraeg.

Tudalen Facebook:

<https://www.facebook.com/yrhenlyfrgellporth>

Dewch i Siarad

gan Fi Benson

Dwi'n dysgu Cymraeg ers y cyfnod clo ym mis Ebrill 2020. Dechreuais i ddysgu oherwydd dwi'n byw yn Fforest y Ddena, ar y ffin â De Cymru, ac oherwydd dwi'n teithio llawer ledled Cymru yn fy nghartref modur, Gracie.

Mis Medi diwethaf, dechreuais drefnu clybiau sgwrsio - tua unwaith y mis - yn ardal Fforest y Ddena, Rhos-ar-wy, a Chaerloyw - er mwyn cael cyfleoedd i ymarfer siarad Cymraeg gyda siaradwyr a dysgwyr lleol eraill - mewn lleoliad anffurfiol.

Mae'n hawdd iawn trefnu'r clybiau hyn - yn syml, dwi'n dewis lleoliad (tafarn, caffi, canolfan hamdden, ac ati), dewis diwrnod ac amser pan

dwi fy hun ar gael, yn rhoi gwybod i bobl, a dyna ni.

Dwi'n hysbysebu'r clybiau ar dudalennau Facebook (fel Menter Iaith Lloegr, Dwi'n Dysgu Cymraeg, Duolingo Welsh Learners, Welsh Chat for Learners, Forest of Dean, Ross-on-Wye) ac i aelodau ar fy rhestr e-bost.

Dyn ni'n gymysgedd o siaradwyr iaith gyntaf a dysgwyr o bob lefel. Gall pobl aros mor hir neu mor fyr ag y dymunant; yn gallu sgwrsio cymaint neu gyn lleied ag y dymunant.

Mae'n hyfryd cwrdd â dysgwyr a siaradwyr eraill, ymarfer Cymraeg a chael hwyl!

Am ragor o wybodaeth, gall pobl anfon e-bost ataf ar fibenson@gmail.com.



An acorn can grow to be a

Mighty Oak

And your skills can grow too but whereas an oak will take more than your lifetime for it to grow to its full height you can be proficient in Welsh within a year. You just need to be adventurous and have a go!

Writing can help you consolidate and your efforts will help others on their journey. Write something simple for me, something that you can do without looking at a dictionary.

Just have a go!

You won't make a fool of yourself because I will make sure that your work is correct.

Do it now!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Beth nesaf?

Cyrsiau'n dod i ben yn yr haf?

Os felly dyma'r amser i sefydlu grŵp yn eich ardal er mwyn i chi a'ch cyd-ddysgwyr cadw eich Cymraeg i fynd. Mae mor syml i'w wneud, does dim ond rhaid i chi wneud yn siŵr bod cyfeiriadau pawb gennych chi, dewis rywle gyhoeddus i gyfarfod a dyna chi.

Mae'n bwysig bod chi'n cyfarfod ble mae pawb yn eich gweld chi achos, unwaith mae'r Cymry yn eich clywed chi bydden nhw eisio gwybod pwy ydach chi a phopeth amdanoch chi. Byddech chi wedi dechrau ar eich taith i fyd yr iaith. Ac mae'n fyd pleserus achos mae'r iaith angen pobl fel chi, pobl sydd wedi gwneud ymdrechion mawr i'w dysgu.

Byddech yn helpu ni i gadw'r iaith i fynd ac mae hynny'n bwysig dros ben achos mae pwysau mawr ar yr iaith. Ces i fy ngeni yn sir Fôn mewn pentref ble roedd y Gymraeg i'w glywed ym mhob man ond pan dw i'n mynd yn ôl dim ond Saesneg dw i'n clywed. Mae hynny'n drist ofnadwy.

Mae digon o ddysgwyr yn cofrestru i ddysgu pob blwyddyn i wneud môr o wahaniaeth ond er bod llawer yn cofrestru mae llawer yn methu torri mewn i'r byd Gymraeg. Bydd ffurfio grŵp yn cadw chi yn yr iaith.

Nid yn unig hynny mi fydddech chi yna i roi cefnogaeth i'r dysgwyr sydd yn eich dilyn chi, rhoi'r cyfle iddyn nhw siarad a chael hwyl yn yr iaith. Pob blwyddyn bydd eich grŵp yn tyfu a bydd mwy a mwy o ddysgwyr yn cyrraedd y gymuned Cymraeg.

Petasai hyn yn digwydd trwy Gymru gyfan pwy ag ŵyr faint o ddysgwyr bydd yn cael y cyfle i fwynhau siarad Cymraeg pob dydd.

Pan dach chi wedi sefydlu'r grŵp gadewch i mi wybod a byddaf yn ei restru yn Y Wennol.

What next?

Courses coming to an end in the summer?

If so this is the time to set up a group in your area so that you and your fellow learners keep your Welsh going. It is so easy to do, you only have to make sure that you have email addresses from everyone, choose somewhere public where you can meet, and there you are.

It's important that you meet where people can see you because, once Welsh people hear you they will want to know who you are and everything about you. You will then have begun your journey into the world of Welsh. And it is a very pleasurable world because the language needs people like you, people who have made such an effort to learn.

You will be helping us to keep the language alive and that is so important because of the pressures on the it. I was born in a village in Anglesey and Welsh was heard everywhere but when I go back now I only hear English. I find that very sad.

There are enough learners registering to learn every year to make a huge difference but so many find it difficult to break into the Welsh world. Forming a group would keep you in the language.

Not only that, you would be able to support those learners who follow you, to give them the chance to chat and have fun through the medium of Welsh. Each year your group will grow and more and more learners will reach the Welsh community.

If this happened all over Wales who knows how many learners would get the chance to speak Welsh every day.

When you've set up your group let me know and I can list it in the Wennol.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Rhwng Môr a Mynydd

gan Judith Roberts


Yn fy hoff le, rhwng mynydd a môr
Y Rhinogydd yn eistedd fel dannedd creigiog.
Islaw awyr o gymylau dramatig
A sbotoleuadau'r heulwen.
Dw i'n cymryd y llwybr i'r 'eglwys yn y tywod'
Ac ychwanegu at y cregyn goffa
Am Eglwys Tanwg Sant
Dw i'n clywed sibrawd ysgafn y môr.

Aber Artro yn cysylltu mynyddoedd a môr
A chychod ar angor ym Mochras
Cyfarchion y cefnfor
Cofleidiad Pen Llyn
A Bae Ceredigion i gyd
A pan fydd cymylau yn uchel neu absennol
Mae Eryri yn sefyll yn falch
Ac yn fframio'r olygfa

Oherwydd bod popeth yn
hardd am ogledd Cymru
Yma
Ar y traeth
Rhwng môr a mynydd.

Bore Coffi

gan Jeanette Muff



Ychydig wythnosau yn ôl, do'n i ddim yn gallu defnyddio'r we fore Mercher, bore fy nosbarth Cymraeg! Yn ffodus, cofiais i fod yna lolfa goffi Cymraeg neis gerllaw...

Es i ar y bws i Borth, i'r Hen Lyfrgell. Roedd hi'n bwrw glaw ac yn wyntog iawn. Agorodd y caffi yn gynnar - dechreuodd fy nosbarth am hanner awr wedi naw am dair awr. Prynais i goffi latte soia ac eisteddais yn y gornel ar fwrdd wrth y ffenestr, gyda fy llyfr cwrs Sylfaen, fy Cindl a fy nghlustffonau.

Do'n nhw ddim yn brysur, felly clywais i i'r wers Gymraeg yn iawn. Yn yr egwyl fer archebais i goffi arall - a'r sleisen olaf o gacen figan. Roedd yn sbwng mafon ac yn flasus iawn. Roedd ein tiwtor Osian yn genfigennus o fy mwyl!

Ar ôl y dosbarth, siaradais i gyda'r staff yn Gymraeg (a Saesneg!). Ro'n nhw'n gyfeillgar iawn ac yn groesawgar i ddysgwyr. Mae llawer o ddigwyddiadau yno - mae Chat Cymraeg am 10:30yb pob dydd Iau (mynediad am ddim), clwb ysgrifennu, grŵp gwau, comedi, noson lawen a gweithdy cerddoriaeth i blant yn yr hanner tymor. Maen nhw'n gwerthu llyfrau Cymraeg ail-law ac anrhegion yn ogystal â bwyd.

Roedd yn dod yn brysurach nawr roedd hi'n amser cinio. Roedd pobl yn prynu brechdanau a diodydd i'w bwyta neu i'w bwyta allan. Paciais fy mag a diolch i'r staff am fore diddorol. Doedd hi ddim yn bwrw glaw nawr! Es i ar y bws adre.

Dywedais i wrth fy ffrind am fy nhaith. Aeth e yno a phrynu mwg Cymraeg hyfryd a cherdyn pen-blwydd i'w chwaer. Dyma'r dudalen Facebook - Yr Hen Lyfrgell, Porth: <https://www.facebook.com/yrhenlyfrgellporth>

Lloyd

gan Bryan Roberts

Hoffwn ysgrifennu darn bach ar gyfer aelod o'r grŵp sgwrsio Amwythig. Dywedais dipyn ar gyfer y grŵp mewn erthygl a ysgrifennais amser maith yn ôl yn y Wennol, ond, hoffon i rannu rhywbeth arall efo chi rŵan.

Aelod eithaf newydd o'r grŵp oedd Lloyd. Un o'r De yn wreiddiol, ond magwyd yn y Canolbarth, lle oedd yn dod i fod yn siaradwr rhugl.

Cawson ni, y grŵp sgwrsio, lawer noson wych yn siarad gyda'n gilydd yn y dafarn, ac roedd Lloyd yn help go iawn i'r rhai ohonon ni sy'n dal ar y ffordd hir i ruglder. Gwnaeth o fyth ceisio dominyddu'r sgwrs, ond, roedd Lloyd yn barod iawn i gyfrannu at y drafodaeth. Roedd ganddo fo wybodaeth eang, a barnau cryf am bob math o bynciau, a'u mynegodd yn dawel ond efo hyder.

Mae gennyf reswm arbennig i fod yn ddiolchgar i Lloyd oherwydd eleni, gwnes i sefyll yr arholiad lefel Uwch TBAC, ac, fel rhan o'r

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

arholiad, roedd rhaid i'r ymgeisydd cael dwy sgwrs, un efo'u tiwtor ac un efo Cymro Cymraeg. Rhaid inni recordio sgysiau deg munud ac e'u hanfon i'r arholwyr ym mis Ebrill. Ar unwaith, penderfynais ofyn i Lloyd i helpu fi ac, ar ôl ceisio gwneud y dasg mewn caffi dros baneidiau mawr o siocled poeth, roedd rhaid i ni symud i'r llyfrgell, oherwydd roedd yn rhy swnllyd yn y caffi.

Yn y llyfrgell, cawsom sgwrs ardderchog am sut gallech y Llywodraeth Cymraeg cyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. I fod yn onest, wnaethon ni parhau dros y deg munud oherwydd yr oeddwn yn mwynhau ein hunain cymaint.

Efallai bod chi mewn penbleth am pam yr wyf yn siarad am Lloyd yn yr amser gorffennol. Yn drasig, cafodd Lloyd ddamwain ofnadwy ac, er gwaethaf ymdrechion enfawr gan y meddygon yn yr ysbyty, ni allent achub ei fywyd.

Roedd ei angladd yn rhywbeth arbennig hefyd. Cyrhaeddodd yr arch o dan y Ddraig Goch, roedd dau aelod o'r grŵp sgwrsio yn cyfrannu gweddïau neu ddarlenniadau i'r gwasanaeth ac roedd yr amlosgfa yn llawn.

Mae o'n golled fawr i ni.

Heddwch i'w lwch.

Dw i'n siŵr bod ni i gyd yn cydymdeimlo efo chi yn y grŵp yn yr Amwythig ond gwnewch yn siŵr bod y grŵp yn tyfu o nerth i nerth er cof amdano. Dymuniadau gorau. Rob

Agor Drysau

gan Tony Stewart

Y mae golygydd y Wennol (bendithion arno!) yn gofyn byth a beunydd am ddarnau ysgrifenedig oddi wrth ddysgwyr am eu profiadau tra bod nhw'n mynd ati i ddysgu Iaith y Nefoedd. Mae pob un ohonom, siŵr iawn, wedi cael profiadau gwahanol, nid bob tro yn fuddiol, weithiau yn gwbl rwystredig am sawl rheswm. Ond yn y pen draw os byddwch chi'n cyrraedd llethrau isaf ucheldir y Gymraeg gyda digon o Gymraeg i gynnal sgwrs braidd yn herciog, y mae dysgwr yn haeddu teimlad o falchder yn codi yn ei fron.



Nid yw'n iaith hawdd i ddysgu ond os ydych chi'n llwyddo i oresgyn ambell i anhawster ar eich taith ac yn cyrraedd yr ucheldir, ni fydd modd i San Pedr wrthod eich mynediad trwy'r Gataiau Wen pan ddaw'r amser i gwrdd â fo!

Wel 'te, beth am fy mhrofiad i, yr ysgrifennwr, dw i'n clywed chi'n gofyn? Deuthum i Sir Benfro ym 1962 i weithio ar seiliau'r hen Orsaf Pŵer Penfro. Penderfynodd doethion CEBG mai olew fyddai tanwydd yr orsaf. Yn eu doethineb hefyd cynlluniwyd yr orsaf i sefyll yng nghanol afon a môr enfawr o fwd ger pentref o'r enw Rhoscrowther 5 filltir o dre Penfro. Talcen caled fydd y dasg o baratoi'r safle, nid ar chwarae bach fydd cyflawni'r dasg sylweddolais. Felly yr oedd rhaid dod o hyd i le i fy ngharafân fach ac i wneud fy hunan yn gyfarwydd â'r ardal, siopau, tanwydd ar gyfer fy nghar a phethau cyffelyb. Setlo i mewn fel petai am arosiad hir.

Rhaid i mi gyfaddef roeddwn yn Sais gwbl anwybodus am Gymru a'r Cymry pan ddeuthum yma. Yn anffodus mae hyn yn digwydd yn rhy aml pan mae pobl yn dod yma o ochr arall i Glawdd Offa. Cymaint o bobl ddim yn sylweddoli bod pethau'n wahanol fan hyn. Ond ymlaen a'm hanes a'm profiadau fel dysgwr. Ar un o fy nheithiau o gwmpas Sir Benfro droais radio'r car ymlaen ac wrth ffidlan clywais iaith gwbl ddieithr ac ar ôl gwranddo arni am hir heb ddeall yr un gair sylweddolais mai'r iaith Cymraeg yr oeddwn yn clywed.

Wel bois bach, am ysgytwad! Credwch neu beidio, cwmpais mewn cariad yn syth gyda seiniau'r geiriau a mynegiant yr iaith. Cefais fy nghyfareddu a'm swyno, roedd fel hud a lledrith, ac mae fy nghariad tuag at yr iaith yn gryfach heddiw o ganlyniad ei ddysgu nag oedd hi pan glywais i hi am y tro cyntaf. Teimlais angerdd y dylwn ei ddysgu cyn gynted a bo modd ond sut a

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

ble? Yr oedd rhwystrau i wynebu, rhwystrau sylweddol hefyd.

Mae pob dysgwr gwerth ei halen yn gwybod yn iawn y peth mwyaf pwysig am ddysgu yw'r cysondeb dosbarthiadau, cadarnhau beth ydych chi wedi dysgu gartre, bod yn gwbl ymroddedig â gwaith cartref a chael cyfleoedd i ymarfer siarad. Y gwir oedd roeddwn yn gweithio oriau hir bron bob dydd a pharhaodd hyn oll am flynyddoedd maith. Cefais y cyfle ar y diwedd ar ôl i mi ymddeol.

Es ati wedyn fel lladd nadroedd i ddysgu, pob dosbarth oedd ar gael, dydd a nos, ysgolion haf, Pasg, cyrsiau adolygiad ayyb. Cefais sawl tiwtor yn ystod yr holl fwrwm o ddysgu ond un peth uwchben bopeth a daeth yn amlwg oedd rhagoriaeth yr athrawon a thiwtoriadaid oedd yn fy nysgu. Nodweddiadol o bob un ohonynt fu eu hymdrechion clodwiw i fwrw'r Gymraeg i fy mhen, eu hymrwymiad ganddynt tuag at ddysgu'r iaith. Roedd amynedd Jôb ganddynt gyda fy anawsterau, y caredigrwydd, a'r deallusrwydd yr ymddangosent tuag ataf.

Mae gennyf barch aruthrol tuag at bob un ohonynt ynghyd â'm gwerthfawrogiad bythol. Rhai yn ffrindiau oes erbyn hyn hyd yn oed. A beth arall oedd yn fuddiol wrth ddysgu'r iaith ar wahân y gallu i siarad â'm cyd Gymry?

Rhywbeth cwbl amhrisiadwy! Agorodd yr iaith drws i mi gamu i mewn i gyfoeth o lenyddiaeth, diwylliant a hanes fy ngwlad fabwysiedig a oedd yn gwbl anhysbys i mi cyn mynd ati i ddysgu.

Nef ar y ddaear. Oes mwy ei angen gan unrhyw un?

Atgofion o Gwm Llynfi

Rhan 2

gan Celia Jones

Yn sgil Diwygiad 1904 roedd y Cwm yn frith o gapeli gwahanol enwadau - capeli Cymraeg a Saesneg. Yn ei anterth yn y capeli mawr byddai dosbarthiadau oedolion yn trafod yn frwd - y Beibl, y bregeth ac amrywiol bynciau moesol a gwleidyddol. Byddai'r dynion hyd yn oed yn trafod hyn amser cinio yn y Pwll Glo.

Capel Moriah, Pontrhydydyff oedd ein capel ni. Tŷ Cwrdd bach diaddurn, â stôf yn y canol. Dyma le priododd Alun a fi ar ddechrau 1965.

Symbl iawn oedd patrwm gweithgareddau'r Ysgol Sul - darllen y Beibl, darllen "Rhodd Mam", ymarfer ar gyfer y Gymanfa Ganu flynyddol a dysgu "Cantata" (yn Saesneg) ar gyfer cyngerdd y pentref adeg Nadolig. Dim lliw, dim crefftau. Doedd dim siopau na thafarndai ar agor ar y Sul. Mor wahanol yw hi heddiw gyda'r bwrwm o weithgareddau lliwgar.

Ar y Sulgwyn byddai plant Capel Bedyddwyr Ainon (oedd ddim ond taflad carreg o Moriah) yn ymuno â ni i gerdded o gylch y pentref, cyn cael te unol gyda theisen ceirios, seed cake a pop.

Yn y Rhyfel Mawr, roedd miloedd ar filoedd wedi cael eu lladd neu wedi'u hanafu ac wedi cael eu dadrithio a'u siomi – ar ôl dychwelid doedd dim gwaith, dim gobaith.

Yn y cyfnod hwn rhwng y ddau ryfel byd, roedd tlodi yn rhemp, y diciâu (TB) yn gymharol gyffredin a'r rhan fwyaf o'r plant yn cael esgidiau am ddim yn yr ysgol, cod liver oil a photel fach o laeth (1/3 pint).

Bu'r glowyr oedd allan o waith yn protestio drwy gerdded yr holl ffordd i Lundain.

Rwy'n cofio dod mas o'r ysgol fis Medi 1939 a chlywed sirens am y tro cyntaf. Rhedeg lawr y stepiau i'r farchnad danddaearol ym Maesteg ac aros yno hyd y rhoddwyd yr All Clear. Bomio mawr yn Abertawe, tair noson o'r bron. Rhyfel yn yr awyr oedd y rhyfel hwn, yn hytrach nag yn y ffosydd. Byw o dan gysgod y chwiloleuadau a'r blacowt, tywyll iawn yn y nos.

Wrth gwrs roedd prinder cynyddol o fwyd a dillad, rhaid oedd cael coupons neu ration books am bron popeth. Roedd y sloganau fel Make Do and Mend yn dweud wrthym am greu a thrwsio

YR HEN LYFRGELL
— PORTH —
Lolfa Goffi / Coffee Lounge
@
47 Heol Pontypridd

Come over / Dewch draw:
The Old Library Porth Coffee Lounge
Lolfa Goffi Yr Hen Lyfrgell Porth

47 Heol Pontypridd Road
PORTH, CF39 9PG
01443 685422

Tel: 01443 685422
Telerij@yahoo.com
Facebook @yrhenlyfrgellporth

Free wifi / Mymeddi i'r We am ddim
Alcohol and music licence / Trosydd alcohol a mwsig
Available for private functions / Ar gael i'w fwcio

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

ein dillad ein hunain a Dig for Victory yn ein hannog i dyfu bwyd yn yr ardd i fod yn hunangynhaliol.

Yn wahanol i'r cyfnod ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf, wedi'r Ail Ryfel Byd crëwyd nifer fawr o swyddi gan fod angen brys i ailgodi trefydd oedd wedi'u bomio. Ac roedd technoleg wedi symud ymlaen yn fawr. Aeth ffatrioedd diri i fyny, a chymaint o dai newydd - prefabs. Popeth yn newid unwaith eto yn y Cwm gyda mewnfudwyr yn cyrraedd eto, y tro hwn o nifer o wledydd y Gymanwlad, yn enwedig o Jamaica ac o'r India.

Ar ddechrau'r ganrif ddiwetha' roedd y Cwm yn frith o gapeli gwahanol enwadau. Erbyn heddiw does prin unrhyw gapel ar ôl yn y Cwm.

Annibyniaeth?

gan Patrick Soper



Dros y blynyddoedd diweddaraf, gyda dyfodiad grwpiau megis Yes Cymru, mae galwadau yng Nghymru am annibyniaeth wedi dod yn gryfach. Yr hyn yr oedd yn arfer cael ei ystyried yn 'eithaf' wedi cael ei dderbyn fel prif ffrwd. Beth yw'r dyfodol i Gymru, felly?

Ond dyma gwestiwn hollbwysig sydd rhaid inni ateb: Beth yw ystyr y gair 'annibyniaeth'? A fyddwn ni'n adeiladu wal ar hyd Clawdd Offa, mewn adeg pan mae ffiniau yn diflannu dros Ewrop? A fyddwn ni'n sefydlu ein byddin a llynges ein hunain, neu ddod yn weriniaeth fel Iwerddon? Beth am fathu arian Cymreig?

Mae rhai lleisiau yn dweud y dylai Cymru annibynol wneud cais i ailymuno â'r UE, ond a fyddai'r UE yn adnabod Cymru fel cenedl?

Yn yr Alban mae Nicola Sturgeon yn cymell ei phobl i alw am wahanu â Lloegr, ac wedi datgelu

ei bod yn bwriadu gofyn am aelodaeth Albanaidd i'r UE. Ond ni fydd ei breuddwydion yn cael eu gwireddu. Rhaid inni gofio trychineb Catalwnia, y genedl ddewr honno a feiddiodd herio Sbaen gan gynnal refferendwm ynglŷn ag annibyniaeth. A phan ymbilodd arweinyddion Cytalan am gefnogaeth cenhedloedd eraill, pwy ag estynnodd anogaeth iddyn nhw? Neb.

Ond yn ôl i'r cwestiwn – beth yw annibyniaeth? Siŵr o fod nad yw hon yn rhywbeth ynglŷn â thiriogaeth yn unig. Na - meddylfryd yw annibyniaeth; os rydym yn gweld ein hunain fel 'Prydeinwyr' yn hytrach na 'Cymry', dydyn ni ddim yn genedl mwyach.

Ar y llaw arall, y gallwn ni ennill annibyniaeth dros Gymru drwy barchu ein diwylliant, ac yn ei dathlu. Ac yng nghanol bob diwylliant yw ei hiaith. Gan ddarllen, ysgrifennu, siarad a meddwl yng Nghymraeg rydym yn cyhoeddi ar goedd bod ein gwlad yn annibynol yn yr un ffordd sy'n bwysig. Does dim angen cytundeb ffurfiol gyda Lloegr, neu ganiatâd oddi wrth unrhyw un.



HAF 2022

NEWYDDION CYFFROUS

GARTH NEWYDD, LLANBED

LLE CARTREFOL I ADEILADU HYDER YN Y GYMRAEG



Mae'n darparu:

- Llety yn cynnwys cyrsiau er mwyn codi hyder pobl i siarad Cymraeg.
- Cyfle i fwynhau a rhannu profiadau mewn awyrgylch braf.
- Cyfle i brofi gweithgareddau newydd - ffotograffiaeth, hanes Cymru, crefft a mwy!

- Cyfle i ddod i 'nabod a chymdeithasu gyda siaradwyr iaith gyntaf.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
codihyder@gmail.com
www.paned.cymru
.....neu galwch heibio!

Garth Newydd
Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
SA48 7AA



Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



DYDD IAU SHWMAE

Ble/Where? Cwm Ivy Cafe & Crafts

Pryd/When? Pob Dydd Iau 11yb - 4yh
Every Thursday 11am - 4pm

Beth/What? Cyfle i siarad Cymraeg gyda staff & dysgwyr lleol.

A chance to speak a bit of Welsh with staff, local speakers and learners.

Pwy/Who's invited? Pawb! Everyone!

We want to create an inclusive environment, whether you're fluent or have never heard a word of Welsh before. Come down to chat, listen and soak up a bit of Welsh culture.

Dewch lawr am sgwrs a paned.

Am mwy o wybodaeth cysylltwch a ni ar Facebook neu Instagram.

@CwmlvyCafe



For more info get in touch with us via Facebook or Instagram.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Taith Iolo Morgannwg

arweinydd Shelagh Fishlock

Cawsom daith hyfryd yn y Bont-faen diolch i Shelagh Fishlock a oedd wedi gwneud llawer o waith ymchwil a thywys ni ar daith trwy ardal Iolo Morgannwg. Ar ôl dwy flynedd heb Eisteddfod a Thregaron ar y trothwy, croesi bysedd, roedd thema'r daith yn briodol. Doedd y tywydd ddim wedi bod yn dda ac roedd tipyn o smwc ar y dechrau ond mae aelodau'r Gymdeithas wastad yn barod am unrhyw beth. Roedd ein taith yn mynd â ni trwy ddolydd o flodau gwyllt a'r dafnau yn sgleinio ar ôl y tywydd gwlyb. Ond roedd pawb yn gwisgo trowsus dal dŵr, felly dim problem o gwbl.



A phwy oedd Iolo Morgannwg a beth yw ei gysylltiad efo'r Eisteddfod?

Cafodd Iolo ei eni ym mhentref Trefflemin yn Y Fro, roedd ei dad yn saer maen a dysgodd Iolo'r grefft gan ei dad. Roedd ei fam yn ddysgedig ac oddi wrthi hi cafodd ei addysg, felly tyfodd i fod yn beniog ac yn greffus. Daeth gyfnod pan oedd gwaith yn brin ac aeth i Lundain i weithio ond roedd o'n dioddef o'r fogfa a chafodd ei effeithio yn arw gan y niwl trwchus yn y ddinas. Ei letywraig awgrymodd iddo gymryd laudanum i leihau ei anesmwythder. Doedd gan y ddynes ddim syniad faint oedd hyn yn mynd i newid diwylliant yng Nghymru a'r iaith Gymraeg.

Doth Iolo yn ôl i Gymru a pharhaodd fel saer maen ond doedd o ddim yn w'r busnes da o gwbl ac aeth o un argyfwng i'r llall. Ond beth sydd yn bwysig yw bod Iolo, gyda dylanwad mawr laudanum, wedi ail sefydlu'r Eisteddfod, y gyntaf ar Fryn Briallu yn Llundain. Ond yng Nghaerfyrddin yng ngwesty'r Llwyn Iorwg roedd yr Eisteddfod 'gyntaf' yng Nghymru. Mi oedd Eisteddfodau wedi bod o'r blaen wrth gwrs, y cyntaf yng nghastell Aberteifi ym 1176 diolch i'r


Tywysog Rhys ap Gruffudd ond dyma oedd dechrau'r Eisteddfod gyfoes.

Dros y blynyddoedd mae llawer o bobl wedi beirniadu Iolo yn hallt am ffugio dogfennau a barddoniaeth ond hebddo na fydd yr Eisteddfod yn bodoli. Mae'n haeddu cael ei gyfeirio at fel 'lovable rogue'.



Felly, ymlaen â'r daith a chyn hir roedden ni wedi cyrraedd Bryn Owain ble mae maen hir a chrug claddu ac mae'n debyg mai yn fan hyn oedd lleoliad brwydr lwyddiannus Owain Glyndŵr yn erbyn Harri IV. Dyma hefyd oedd Orsedd y Beirdd cyntaf yng Nghymru ym 1795 ac ym 1995 roedd dathliad y daucanmlwyddiant yma.

Anelu at Y Clwmp rŵan ble roedd Shelagh wedi trefnu bod wal cerrig fflat yna i ni eistedd yn gyfforddus arno i gael ein picnic efo golygfeydd o hen orsaf bŵer Aberffraw a maes awyr Rhws. Mae Shelagh yn gwybod sut i dicio'r bocsys!



Amser llawn cyffro i rai a llawn ofn i eraill wrth i ni gerdded trwy caeau o wartheg busneslyd ond roedd llawer mwy o ofn arnyn nhw nag arnom ni.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Roedd y daith bron ar ben rŵan ond roedd dau bleser arall i gael sef crwydro o gwmpas yr ardd berlysiâu enwog a chael paned yn hen siop lyfrau Iolo sydd bellach yn gangen o Costa!

Diolch yn fawr i Shelagh am ein tywys trwy wlad hyfryd ac am drosglwyddo gymaint o fanylion diddorol i ni. Taith hyfryd iawn!

Doethineb Mamgu Salem

gan Brian Davies



Yn y llyfr Salem Soldier mae fy nhad yn sôn am ymarferiad feddyginiaethau traddodiadol, yn enwedig gan fy mam-gu Marged Ann Davies o Salem. Mae yn sôn am fam-gu yn ei anfon i gasglu llysiau arbennig o le arbennig er mwyn creu gwellhad i glefyd llid y croen. Roedd hi yn stwmpian y llysiau, yna eu cymysgu gyda saim gŵydd ai cynhesu mewn sosban, gadael i'r cyfan oeri ac yna taenu'r eli ar frest y claf, ac yntau yn cael gwellhad llwyr.

Rwyf yn cofio fy nhad yn wael iawn gyda'r clefyd melyn a dim llawer o wellhad trwy driniaeth y meddyg. Mam-gu yn penderfynu mynd yn ôl i'r hen ymarferiadau a pharatoi powltis o wermod lwyd a thaenu hwn arno, ac mewn 24 awr roedd fy nhad yn gwella.

Roedd gan hud gwerin draddodiad hir yn ardal Salem a Penrhyn-coch, ac yn ehangach yng ngogledd Ceredigion.

Mae ymarferwyr y triniaethau cudd hyn yn amrywio o lysieuaeth syml i weithgaredd

esoterig dwys. Credwyd bod gan y dyn hysbys y pwerau a'r gallu i wybod a datgelu digwyddiadau yn y dyfodol, yn enwedig o ran cariad a marwolaeth. Ond roedd ganddyn nhw ddilyniant cryf achos eu gallu i wella pobl ac anifeiliaid, yn aml trwy ddefnyddio swyn a chyfaredd. Byddai ymarferwyr yn ymgynghori â nhw i ddelio â materion cysgodol yn amrywio o laeth sur i iselder ysbryd. Byddai'r iachâd fel arfer yn cynnwys swyn a fyddai'n cael ei dderbyn yn gyfrinachol gan ddioddefwyr pryderus, gan y byddai'r capeli yn anghymeradwyo meddyginiaethau o'r fath a'r consuriwr, gan fynnu mai gwaith y Diafol ydoedd. Roedd bywyd gwledig yn golygu, yn aml pan fyddai salwch yn taro'r trigolion, y byddent yn ymgynghori ag arbenigwr traddodiadol yn hytrach na thalu am feddyg yn Aberystwyth pell,

Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif roedd Llangurig yn arbennig o enwog am ei Dynion Hysbys gyda darparwyr adnabyddus fel Evans Griffiths, a Dicky Davies o fferm Fagwyr Fawr ger Ponterwyd. Byddai ofn swynion a dewiniaeth yn achosi i werin wledig ymgynghori â'r dynion doeth hyn a byddai swyn yn cael ei ysgrifennu ar ddarn o bapur. Yna'n cael ei rollo i fyny a'i selio'n ofalus mewn potel a fyddai wedyn yn cael ei rhoi ar drawst yn y tŷ neu wedi'i guddio o dan yr aelwyd i sicrhau amddiffyniad rhag dewiniaeth a chyfnodau a amheuir. Gallai defodau eraill gynnwys gosod gwrthrychau miniog fel drain neu binnau y tu mewn i botel a oedd wedi'i llenwi ag wrin y dioddefwr a'i selio i'w gladdu o dan yr aelwyd. Roedd y botel yn symbol o bledren y wrach a'r gwrthrych miniog yn achosi poen iddi. Credwyd bod hyn yn poenydio'r wrach i ddatgelu ei hun a thorri'r swyn. Roedd ymgynghoriadau eraill yn cynnwys sêr-ddewiniaeth, dweud ffortiwn, iacháu a hyd yn oed adfer eiddo coll.

Dywedwyd bod yfed dŵr ffynnon gyda saffrwm yn gwella meddwdod dro ar ôl tro. Byddai'r dyn hysbys yn ystyried yr ofnau a'r ofergoelion mewn ardal. Roeddent yn aml yn honni eu bod yn gallu rhagweld y dyfodol ond ymgynghorwyd â nhw'n bennaf am eu gwybodaeth am feddyginiaeth draddodiadol a allai gynnig triniaethau i ddynion, menywod, plant ac anifeiliaid. Roedd ganddyn nhw wybodaeth werin esoterig am iachâd llysieuol a

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

trosglwyddo yn eu teuluoedd ers sawl cenhedlaeth ac yn honni eu bod yn cyd-fynd â grymoedd etheraidd y tir neu nerthoedd lluniol.

Byddent hefyd yn defnyddio Maen Magl i wella amryw o salwch yn enwedig y rhai sy'n cynnwys anawsterau gyda'r golwg. Roedd pwerau iachau yn y cerrig hyn. Roedd Marguerite Evans, gwraig yr awdur enwog o Gymru, Caradog Evans, hefyd yn cael ei galw'n Iarlles Barcynska, ac ysgrifennodd lyfrau o dan y ffugenw Oliver Sandys. Bu'n byw am beth amser yn New Cross ac yna symudodd i Benrhyn-coch, ac roedd ganddi garreg iachâd y mae'n honni iddi gael ei rhoi iddi gan ddyn hysbys o ardal Ponterwyd y cyfeiriodd ato fel "Old Griff". Daeth hefyd yn ffrindiau ag Evan Griffiths o Langurig. Byddai llawer yn ymweld â hi i gael ei hiacháu gan y garreg yr honnir iddi ddod o Balestina. Honnir i'r garreg gael ei chludo i'r Unol Daleithiau gan ei mab, a dywedir iddi gael ei hatafael gan yr F.B.I.. Roedd cerrig iachâd eraill yn cael eu galw'n gerrig nadredd a honnir eu bod yn effeithiol wrth wella problemau gyda'r golwg. Byddai'r garreg yn cael ei rhoi mewn dŵr dros nos, a'r llygaid yn ymdrochi gan y dŵr y diwrnod canlynol i hwyluso iachâd.

Mae pobl wedi byw yn y dirwedd dawel heb ei difetha ers mil o flynyddoedd ac mae eu dylanwad yn parhau heddiw. O fewn cytgordd yr elfennau naturiol y mae'n eu darparu, mae'n werth dod o hyd i unigedd, ac ail-ddarganfod hud a doethineb Mam-gu Salem.

"Gofynnwch a rhoddir i chi: ceisiwch a chewch: curwch, ac fe'i hgorir i chi."

Pawb yma yn siarad Cymraeg!

Dw i wedi copio y darn yma o dudalennau 'Wilia' ein papur bro yma yn Abertawe. Dw i'n siŵr na fydden nhw'n poeni.



Bwyty Truffle

Yn haeddu ein cefnogaeth!

Mae pob un o 11 aelod o staff Truffle, ar King Edward's Road, yn siarad Cymraeg ac yn gyn-ddisgyblion Ysgol Bryn-y-Môr. Oes angen rhagoro esgus dros fynd mas i gael pryd o fwyd?

Y manylion pwysig

Cyfeiriad:

1A King Edward's Rd, Brynmill, Swansea
SA1 4LH

Amser agor:

Dydd Iau 6 y.h. - 11.30 y.h.
Dydd Gwener 5 y.h. - 11.30 y.h.
Dydd Sadwrn 12 c.d. - 11.30 y.h.

Cysylltwch:

01792 547 246
info@truffleswansea.com

Llefydd ble mae sgysiaau Cymraeg ar gael

Southgate, Bro Gŵyr

Three Cliffs Cafe **SA3 2DH** - pob pnawn dydd Mawrth am 2.00 am ryw awr a hanner. Does dim ond rhaid i chi droi fyny neu cysylltwch â Martin Jones o flaen llaw:
martin.jones51@btinternet.com

Yr Amwythig

Grove Hotel, 147 Belle Vue Road, Shrewsbury.
SY3 7NN ar y cyntaf a'r trydydd ddydd Iau pob mis, am 7.30 Am fwy o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â Bryan Roberts -
bryro@btinternet.com neu ar 07985919358

Porth, Y Rhondda

Yr Hen Lyfrgell, 47 Pontypridd Road
CF39 9PG. Cyfarfod yn y lolfaf goffi bob dydd Iau am 10.30 y.b.
Mae llyfrau ail law Cymraeg ar werth a llawer o bethau eraill yn mynd ymlaen hefyd.

Cwm Ivy, Llanmadog. Gŵyr. Mae pob dydd Iau yn ddydd Iau Shwmae. Rhwng 11.00 a 4.00.**SA3 1DJ**. Pan dach chi'n cyrraedd eglwys Llanmadog trowch i'r dde a pharciwch yn y maes parcio ar y dde. Cerddwch i lawr y ffordd a gwelwch y Caffi.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Forest of Dean, Gloucester, Ross on Wye

Mae Fi Benson yn cynnig drefu grwpiau yn yr ardaloedd yma. Cysylltwch â hi am fanylion:

fibenson@gmail.com

Pen-y-Bont ar Ogwr

Mae Cymdeithas Hanes Bro Ogwr yn cyfarfod ar yr ail nos Lun yn y mis, ar Zoom yn ystod y cynod clo ac ar gau dros yr haf ar hyn o bryd. Cadwch llygad ar eu tudalen Facebook:

<https://www.facebook.com/CymdeithasHanesBroOgwr>

Tasmania

Maen nhw'n cyfarfod yn wythnosol ar ddydd Llun 1.30 - 3.30 pm ar gyfer dosbarth gyda U3A (University of the third age) mewn ysgol mewn maestref o'r enw Kingston. Ac eto ar ddydd Mercher cyntaf y mis am sgwrs mewn caffi. Nid yr un caffi bob amser. Cysylltwch â Robin Roberts am fwy o fanylion: robin.7@bigpond.net.au

If you go to a Welsh group or know of one that is not on this list please let me know. Groups are a simple and effective way of, not only keeping your Welsh going but, developing it and will eventually get you into the Welsh World. If you want to start one in your area let me know and together we can try and get members.

Geirfa

Taith Dinas Cross

Anelu - to aim
Amheus arferol - the usual suspects
Torri cwys newydd - to break new ground
Arweinydd - leader
Rheithordy - rectory
Lledaenu - to widen
Gosgeiddig - elegant
Rhingyll - sergeant
Rhedyn - bracken
Boddhad - satisfaction

Nant Gwrtheyrn

Ymchwilio - to research
Breuddwyd - dream
Godidog - excellent
Arweiniad - leadership

Cofrestru - to register

Mynychu - to attend

Allwedd - key

Cyd myfyrwyr - fellow students

Utica

Unol Daleithiau - the United States

Cerddor - musician

Roi'r gorau - to give up

O Hwn i Hwn

Cneifiwr - shearer

Hudo - to charm

Cnu - the sheared wool

Tomwellt - mulch

Rhwng Môr a Mynydd

The Rhinogydd is the mountain range inland from Harlech

Dannedd creigiog - sharp rocks

Sbotoleuad - spotlights

Ychwanegu at - to add to

Cregyn goffa - memorial shells

Cyfarchion - greetings

Cefnfor - ocean

Cofleidiad - embrace

Bore Coffi

Gerllaw - nearby

Clustffonau - earphones

Egwyl - a break

Archeb - to order

Sbwng mafon - strawberry sponge

Cenfigennus - jealous

Croesawgar - welcoming

Gweithdy - workshop

Cerddoriaeth - music

Lloyd

Cyfrannu - to contribute

Barn - opinion

Mynehu - to express

Ymgeisydd candidate

Swllyd - noisy

Cyflawni - to fulfil

Penbleth - perplexity

Ymdrechion - attempts

Angladd - funeral

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Arch - coffin
Gweddiau - prayers
Amlosgfa - crematorium

Agor drysau

Bendithion arno! - bless him (diolch!)
Byth a beunydd - all the time
Iaith y Nefoedd - Cymraeg (wrth gwrs!)
Buddiol - successful
Rhwystredig - frustrating
Llethrau isaf - lower slopes
Ucheldir y Gymraeg - the uplands of Welsh
Heciog - stuttering
Goresgyn - to conquer
Seiliau - foundations
Doethion - the wise ones
CEGB - Central Electricity Generating Board
Tanwydd - fuel
Talcen caled - the hard face (difficult)
Cyffelyb - such as (these)
Cwbl dieithr - totally strange
Ysgytwad - shock
Cyfareddu - to bewitch
Swyno - to enchant
Hud a lledrith - magic
Rhwysr - hindrance
Cysondeb - consistency
Ymroddedig - devoted
Parhau - to continue
Fel lladd nadroedd - like killing snakes (quickly)
Bwrlwm - excitement
Ymdrechion clodwy - praiseworthy attempts
Cyfoeth - richness
Llenyddiaeth - literature
Diwylliant - culture
Mabwysiedig - adopted
Anhysbys - unknown

Cwm Llynfi

Diwygiad - revival
Enwadau - denominations
Yn ei anterth at its height
Yn frwd - enthusiastically
Moesol - moral
Gwleidyddol - political
Diaddurn - plain, unadorned
Gweithgareddau - activities
O gylch y pentref - around the village

Teien ceirios - cherry tart
Dadrithio - to disillusion
Siomi - to disappoint
Yn rhemp - in excess
Cymharol cyffredin - relatively common
Tanddaearol - underground
Yn hytrach nag - rather than
Y ffosydd - the trenches
Chwiloleuadau - searchlights
Hunangynhaliol - self sufficient
Diri - innumerable
Cymanwlad - Commonwealth

Annibyniaeth

Ystyried - to consider
Eithaf - extreme
Gweriniaeth - republic
Prif ffrwd - mainstream
Sefydlu - to establish
Byddin - army
Llynges - navy
Bathu arian - to mint coins
Cymell - to persuade
Trychineb - disaster
Meiddio - to dare
Herio - to challenge
Ymbilio - to implore
Estyn anogaeth - to express encouragement
Tiriogaeth - territory
Meddylfryd - a way of thinking

Taith Iolo Morgannwg

Y Bont-Faen - Cowbridge
Gwaith ymchwil - research
Ar y trothwy - on the doorstep
Yn briodol - appropriate
Smwc - drizzle
Dafnau - droplets
Dal dŵr - waterproof
Cysylltiad - connection
Saer maen - stonemason
Dysgedig - learned
Peniog - intelligent
Mogfa - athsma
Niwl trwchus - thick fog
Lletywraig - landlady
Anesmwythder - discomfort
Parhau - to continue

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Argyfwng - emergency
Llwyn iorwg - Ivy Bush
Cyfoes - modern
Beirniadu - to judge, criticise
Ffugio dogfennau - to fake documents
Bodoli - to exist
Maen hir - standing stone
Crug claddu - burial chamber
Daucanmlwyddiant - 200th anniversary
Gwartheg busneslyd - nosey cattle
Gardd pelysiau - herb garden

Mamgu Salem

Ymarferiad - custom
Meddyginiaeth - medicine
Traddodiadol - traditional
Clefyd llid y groen - dermatitis
Stwmpian - to mash
Saim gŵydd - goose fat
Clefyd melyn - jaundice
Wermod lwyd - wormwood
Taenu - to spread
Hud gwerin - folk magic
Ehangach - wider
Dwys - solemn
Dyn hysbus - faith healer
Dilyniant - following
Swyn - a spell
Cyfaredd - remedy
Cysgodol - shadowy
Anghymeradwy - unacceptable
Gwrthrych - object (a thing)
Miniog - sharp
Wrin - urine
Dioddefwr - sufferer
Pledren - bladder
Gwrach - witch
Datgelu - to reveal
Meddwdod - drunkenness
Ofergoelion - superstitions
Maen magl - miracle stone